OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 77

# Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021

## RHAN 4

Rheoli'r broses o daenu gwrtaith nitrogen

### Rheoli'r modd y taenir gwrtaith nitrogen

**15.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i unrhyw berson sy'n taenu slyri ddefnyddio cyfarpar taenu sydd â thaflwybr taenu isel, sef is na 4 metr o'r ddaear.

(2) Caniateir defnyddio cyfarpar taenu sydd â thaflwybr taenu sy'n fwy na 4 metr o'r ddaear ar dir y mae'r risg o oferu drosto yn isel pan fydd cyfarpar o'r fath yn gallu cyflawni cyfartaledd cyflymder dodi slyri heb fod yn fwy na 2 mm yr awr pan fydd wrthi'n gweithredu'n ddi-dor.

(3) Rhaid i unrhyw berson sy'n taenu gwrtaith nitrogen ei daenu mor fanwl gywir ag y bo modd.